

Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

14 Mai 2020

Annwyl Lywydd

Craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Mesur Amgylchedd y DU

Gobeithio eich bod yn cadw'n dda.

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y broses o drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur Amgylchedd y DU. O ystyried yr argyfwng iechyd cyhoeddus cyfredol Covid-19, mae'r ddau bwyllgor wedi achub ar gyfle i ysgrifennu at y Gweinidog gyda chwestiynau, yn hytrach na chynnal sesiwn casglu tystiolaeth mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol.

Ar 11 Mai roedd y ddau bwyllgor i fod i gael ymateb y Gweinidog i'n llythyrau. Fodd bynnag, dywedwyd wrth glercod y pwyllgorau y bydd oedi cyn i'r Gweinidog ymateb oherwydd gwaith parhaus Llywodraeth Cymru ar bandemig COVID-19.

Wrth newid y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer cyflwyno adroddiad i 4 Mehefin 2020 (estyniad o 1 Mai 2020), deallwn fod y Pwyllgor Busnes wedi ystyried yr oedi yn hynt y Mesur drwy Senedd y DU.

Cafodd cyfarfodydd y Pwyllgor Mesurau Cyhoeddus perthnasol yn Nhŷ'r Cyffredin eu hatal yn y lle cyntaf o ganlyniad i argyfwng Covid-19. O ganlyniad, mae'r amserlen i'r Pwyllgor gwblhau ei waith ar y Mesur wedi cael ei hymestyn i 25 Mehefin 2020. Byddwch yn



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ Cysylltu@senedd.cymru
☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ Contact@senedd.wales
☎ 0300 200 6565

ymwybodol y bydd y Mesur, ar ôl cwblhau'r cyfnod Pwyllgor, yn mynd drwy ddau gyfnod arall yn Nhŷ'r Cyffredin, cyn dechrau ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi.

O ystyried yr oedi pellach yn amserlen Senedd y DU, a'r oedi cyn i'n pwyllgorau gael tystiolaeth gan y Gweinidog, byddem yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Busnes yn cytuno i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ymhellach, i 25 Mehefin 2020 o leiaf.

Yn fwy cyffredinol, pan fydd yn trafod dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar gyfer Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol, dylai'r Pwyllgor Busnes gofio cyfyngiadau amserlen y pwyllgor. Mae llawer o bwyllgorau pwnc bellach yn cyfarfod bob pythefnos, yn hytrach na phob wythnos. Efallai y bydd yr amserlen arferol o chwe wythnos ar gyfer trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn golygu, yn ymarferol, mai dim ond un cyfarfod fydd gan bwyllgorau o'r fath i gymryd tystiolaeth lafar a chytuno ar eu hadroddiadau. Er ei bod yn bosibl i bwyllgorau drafod adroddiadau a chytuno arnynt y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol, nid yw hyn yn ddymunol nac yn ffafriol i waith craffu da. Dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried priodoldeb ei amserlen arferol o chwe wythnos yn wyneb hyn.

Yn gywir,



Mike Hedges AS

Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig



Mick Antoniw AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

